Cylchlythyr

Gwanwyn 2017

Annwyl Aelod o'r Panel,

Croeso i Gylchlythyr Cynnwys Casnewydd ....

Mae'r cylchlythyr hwn yn rhoi adborth ar rai o'r pynciau a oedd yn destun ymgynghoriad Arolygon y Panel yn **Haf a Hydref** 2016, gan grynhoi 'beth ddywedoch chi wrthym ni' a 'beth wnaethom ni'. Darllenwch y cylchlythyr i gael rhagor o wybodaeth!

Beth ddywedoch chi wrthym ni... ...Arolwg Meddygfeydd

Dangosodd canlyniadau'r arolwg wrthym fod yna lawer o gleifion ledled Gwent yn cael trafferth cael gafael ar eu meddygfa. Mae'r problemau'n cynnwys methu cael gwybodaeth briodol, h.y. amseroedd agor meddygfeydd, gorfod disgwyl mwy na phythefnos am apwyntiad gyda meddyg a thrafferth cael gafael ar y feddygfa ar y ffôn.

Mae'r canlyniadau'n dangos hefyd fod y rhan fwyaf o bobl yn gallu cael apwyntiad brys gyda'u meddygfa pan fyddant angen hynny, ac nad yw archebu ail bresgripsiwn yn peri problem i'r mwyafrif helaeth o gleifion.

Beth wnaethom ni...

Fe wnaethom benderfynu cynnwys ymweliadau â meddygfeydd yng nghynllun blynyddol y Cyngor Iechyd Cymuned. Mae canlyniadau'r arolwg wedi'u defnyddio i weld ym mha feddygfeydd mae'r problemau mwyaf o ran cael mynediad iddynt, a byddwn yn cynnal ymweliadau, yn tynnu sylw at yr anawsterau sy'n wynebu cleifion ac yn rhoi argymhellion ar gyfer gwella i reolwyr practis a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Beth ddywedoch chi wrthym ni… ...PNA Rhanbarthol: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth (PNA) rhanbarthol, gofynnwyd i chi pa flaenoriaethau oedd yn bwysig i chi ar draws gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, ac yn arbennig yr 8 thema graidd o dan y PNA (plant a phobl ifanc; pobl hŷn; iechyd/anableddau corfforol, anabledd dysgu/awtistiaeth, iechyd meddwl, nam ar y synhwyrau; trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol). Derbyniwyd 231 o ymatebion.

Mae crynodeb o'r adborth i'w weld isod:

- 62% yn cytuno'n gryf bod cymorth iechyd meddwl ar gyfer plant yn flaenoriaeth.
- 69% yn cytuno'n gryf bod dementia'n destun pryder.
- 62% yn cytuno'n gryf bod angen seibiant hyblyg ar ofalwyr.
- 65% yn cytuno'n gryf bod angen mwy o ymwybyddiaeth o iechyd meddwl.
- 65% yn cytuno'n gryf bod angen cyfleoedd cyflogaeth i bobl ag anableddau dysgu.
- 62% yn cytuno'n gryf bod angen cludiant hygyrch.
- 60% yn cytuno'n gryf bod angen cefnogaeth ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig.

Beth wnaethom ni…

Defnyddiwyd y wybodaeth i nodi'r blaenoriaethau yn adroddiad PNA terfynol ar gyfer y rhanbarth (Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen), i'w darparu drwy Gynllun Ardal yn y dyfodol; a bydd aelodau o'r panel dinasyddion yn cael cyfle i wneud sylwadau ar y camau gweithredu yn y dyfodol agos hefyd.

Cyhoeddir y PNA terfynol a'r crynodeb cyn bo hir a bydd ar gael drwy wefannau pob un o'r awdurdodau lleol yn rhanbarth Gwent.

Greater Gwent Health, Social Care & Well-being Partnership
Partneriaeth Lles, Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gwent Fwyaf

Beth ddywedoch chi wrthym ni / Beth wnaethom ni… ...Casnewydd Fyw

Defnyddiwyd y gwaith ymchwil i barhau i asesu ymwybyddiaeth o'r brand Casnewydd Fyw ac i asesu pa mor gorfforol egnïol yw trigolion Casnewydd. Mae'r wybodaeth a gawsom gennych wedi ein helpu i gynllunio ein gweithgareddau marchnata a chynllunio'r gwasanaethau a gynigiwn.

NEWPORT LIVE
CASNEWYDD FYW
Inspiring people to be happier and healthier

Beth ddywedoch chi wrthym ni… ...Prynu Meddyginiaethau dros y Cownter

Diolch am yr holl ymatebion am y pwnc hwn. Ymatebodd 231 o bobl i'r arolwg a oedd yn gofyn a ddylid cael presgripsiwn ar gyfer meddyginiaethau dros y cownter ar gyfer 10 cyflwr hunan-gyfyngol.

- Ar gyfer y 10 cyflwr cyffredin, roedd cefnogaeth i beidio rhoi'r meddyginiaethau hyn ar bresgripsiwn. Dywedodd 84% na ddylai'r rhain gael eu rhoi ar bresgripsiwn, roedd 11% yn credu y dylent a 5% yn ansicr.
- Y meysydd gyda'r lefel uchaf o gytundeb i beidio rhoi meddyginiaethau ar bresgripsiwn (> 90%) oedd meddyginiaethau diffyg traul ar gyfer defnydd achlysurol, past dannedd ac eli haul, ond dim ond 66% oedd yn credu na ddylai triniaethau clefyd y gwair fod ar bresgripsiwn.
- Teimlai 86% o bobl na ddylai cyffuriau lladd poen ar gyfer mân boenau gael eu rhoi ar bresgripsiwn.
- Nododd llawer o'r sylwadau y dylid annog hunanofal ar gyfer cyflyrau cyffredin.

Beth wnaethom ni…

Mae'r ymatebion i'r arolwg wedi cael eu trafod fel rhan o Raglen Rheoli Meddyginiaethau'r Bwrdd Iechyd. Dyma'r tro cyntaf i ni gael y cyfle i gael yr adborth pwysig hwn gan aelodau'r cyhoedd. Gan fod presgripsiynau am ddim yn un o bolisïau Llywodraeth Cymru, nid yw'r Bwrdd Iechyd yn gallu cynghori meddygon teulu i wahardd rhoi'r meddyginiaethau hyn ar bresgripsiwn. Mae'n bwysig cofio, pan gyflwynwyd presgripsiynau am ddim 10 mlynedd yn ôl, pwysleisiwyd y dylai cleifion barhau i brynu meddyginiaeth heb bresgripsiwn dros y cownter yn y ffordd arferol lle maent wedi bod yn gwneud hynny eisoes.

Mae hunanofal a'r defnydd o fferyllfeydd yn rhan bwysig o'r Ymgyrch Dewis Doeth (gweler http://www.dewisdoethcymru.org.uk/hafan am ragor o wybodaeth). Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i hyrwyddo hunanofal a defnyddio fferyllfeydd drwy'r cynllun hwn.

Byddwn yn ystyried datblygu deunyddiau pellach i godi ymwybyddiaeth o gostau meddyginiaethau dros y cownter sy'n cael eu rhoi ar bresgripsiwn gan feddygon teulu. Bydd hyn yn ystyried sut bydd prynu'r meddyginiaethau hyn yn arbed amser i gleifion a gwneud gwell defnydd o'r adnoddau sydd ar gael i'r Bwrdd Iechyd.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflwyno gwasanaeth anhwylderau cyffredin newydd o fferyllfeydd cymunedol yn 2017. Mae'r cynllun Dewis Fferyllfa'n caniatáu i bobl â mân anhwylderau weld fferyllwyr medrus i gael cyngor a thriniaeth, gan ryddhau amser meddygon teulu i ganolbwyntio ar y bobl hynny ag achosion mwy cymhleth, a lleihau amseroedd aros i gleifion. Dylai hyn fod ar gael ledled Casnewydd erbyn mis Awst.

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

Beth ddywedoch chi wrthym ni… …Arcêd y Farchnad

Yn haf 2016, cawsoch eich gwahodd i lenwi arolwg byr ynghylch Arcêd y Farchnad - Arcêd Fictoraidd hynaf Casnewydd a'r hynaf ond un yng Nghymru.

Prif ddiben yr arolwg oedd asesu pryder ledled y ddinas am gyflwr yr arcêd a mesur y gefnogaeth ar gyfer prosiect (a chais parhaus i Gronfa Dreftadaeth y Loteri am gyllid Treftadaeth Treflun) i adfer un o asedau treftadaeth pwysicaf Casnewydd.

Cadarnhaodd y canlyniadau bryder difrifol ymatebwyr ynghylch cyflwr yr arcêd gyda thros 73% yn cadarnhau bod yr arcêd mewn cyflwr gwael neu wael iawn a thros 90% yn cadarnhau cefnogaeth ar gyfer prosiect adfer.

Roedd y canlyniadau'n dangos hefyd pa mor agos yw'r arcêd at galonnau llawer o bobl, gyda mwy na 10% yn dweud bod ganddynt atgofion, lluniau neu ddogfennau hanesyddol y byddent yn barod i'w rhannu.

Beth wnaethom ni…

Roedd tystiolaeth o angen a'r gefnogaeth ehangaf bosibl gan y gymuned yn rhan hanfodol o gyflwyno cais cryf, ac rydym yn falch iawn o allu dweud i ni gael cadarnhad ei fod yn llwyddiannus ym mis Ionawr 2017 - gyda CDL yn cytuno i gyfrannu £177,000 tuag at Gam Datblygu'r prosiect sy'n costio £256,000 (Mawrth – Rhagfyr 2017) gyda'r £ 1.1 miliwn pellach wedi'i neilltuo ar gyfer cyflawni'r prosiect (2018-2020) os yw'r holl feini prawf yn cael eu bodloni.

Mae cam datblygu'r prosiect yn mynd rhagddo ar hyn o bryd a bydd digon o gyfle i'r gymuned gymryd rhan yn y prosiect. Byddwn yn cysylltu'n fuan hefyd â'r rhai caredig hynny sydd wedi cynnig rhannu atgofion, lluniau neu ddogfennau sydd ganddynt am yr arcêd.

Fel rhan o'r cais llwyddiannus mae disgwyl i Gyngor Dinas Casnewydd werthuso canlyniadau unrhyw brosiect a gyflawnir, a'n gobaith yw y gallwn ofyn i'r panel am eu barn ar ganlyniadau'r prosiect yn y dyfodol.

Supported by The National Lottery® through the Heritage Lottery Fund | Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol trwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri

Newport City Council / Cyngor Dinas Casnewydd | Llywodraeth Cymru Welsh Government

Beth ddywedoch chi wrthym ni … Gwasanaeth Plismona ...Siaradwch â mi am eich

Lansiodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar gyfer Gwent e-ymgynghoriad ar 1 Awst 2016 am gyfnod o 12 wythnos, a ddaeth i ben ar 24 Hydref 2016.

Yn ystod y cyfnod hwn, gofynnwyd i drigolion Gwent am eu barn am y canlynol:

- Y blaenoriaethau arfaethedig o safbwynt yr heddlu a throseddau; a
- Pa mor hygyrch yw'r Heddlu ar hyn o bryd.

Roedd yr adborth gan drigolion Gwent yn wych, gyda 759 o holiaduron yn cael eu cwblhau, a gwnaeth aelodau'r Panel Dinasyddion gyfrannu at hynny.

Dangosodd y canfyddiadau terfynol bod **94%** o ymatebwyr naill ai'n cytuno'n 'gryf' neu 'i ryw raddau' â blaenoriaethau arfaethedig y Comisiynydd.

Mae adroddiad ymgynghori llawn ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd, http://www.gwent.pcc.police.uk/cy/ymgysylltu/ymgynghoriadau-presennol/.

Beth wnaethom ni…

Defnyddiodd y Comisiynydd ganfyddiadau'r ymgynghoriad i gwblhau ei flaenoriaethau plismona ar gyfer Heddlu Gwent. Maent fel a ganlyn:

- Blaenoriaeth 1 - Atal Troseddau
- Blaenoriaeth 2 - Rhoi Cymorth i Ddioddefwyr Troseddau
- Blaenoriaeth 3 – Cymunedol Cydlynol
- Blaenoriaeth 4 - Ymdrin ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Blaenoriaeth 5 - Darparu Gwasanaeth Effeithiol

Mae'r canfyddiadau'n darparu gwybodaeth hanfodol ar gyfer y Cynllun Heddlu a Throseddu hefyd, dogfen sy'n egluro cyfeiriad strategol plismona yng Ngwent ar gyfer 2017-2021.

Mae copi o'r Cynllun Heddlu a Throseddu ar gael drwy ymweld â: http://www.gwent.pcc.police.uk/cy/tryloywder/cyhoeddiadau/cynllun-heddlu-a-throsedd-2017-2021/.

Visit our website for more information: www.gwent.pcc.police.uk
Ewch i'n gwefan am fwy o wybodaeth: www.gwent.pcc.police.uk

Find us on Facebook: gwentpcc / Dewch o hyd i ni ar Facebook: gwent.pcc
Follow us on Twitter: @gwentpcc / Dilynwch ni ar Twitter: @gwentpcc

Beth ddywedoch chi wrthym ni… …Arolwg Presenoldeb yn yr Ysgol

Diolch i'r rhai ohonoch a roddodd o'ch amser i gwblhau ein Harolwg Presenoldeb yn yr Ysgol. Fe wnaethom ofyn am adborth ar y ffactorau a allai arwain at bresenoldeb gwael yn yr ysgol, ac am awgrymiadau ar yr hyn y gellid ei wneud i'w goresgyn.

Fe wnaethoch ddweud mai'r prif ffactorau sy'n arwain at bresenoldeb gwael yw diffyg diddordeb rhieni, bwlio a salwch. Y prif awgrymiadau ar gyfer camau gweithredu i hyrwyddo presenoldeb yn yr ysgol oedd i ysgolion fonitro presenoldeb disgyblion unigol yn agosach; trafod presenoldeb eu plant gyda rhieni; asiantaethau'n gweithio gyda'i gilydd i hyrwyddo presenoldeb; mwy o gyfraniad gan lywodraethwyr ysgolion; a help i fynd i'r afael â bwlio.

Beth wnaethom ni…

Ers yr arolwg mae pob ysgol yng Nghasnewydd wedi derbyn posteri a baneri 'Mae Presenoldeb yn Cyfrif' i hyrwyddo presenoldeb yn yr ysgol. Yn ogystal â hyn, mae'r ymgyrch gyhoeddusrwydd wedi ymestyn i ganolfannau cymunedol, Facebook, Twitter a bysiau Newport Transport. Mae ysgolion wedi dechrau defnyddio dulliau 'Callio' i hysbysu rhieni a gofalwyr am gyfradd presenoldeb eu plant yn yr ysgol, ac yn gweithio gyda theuluoedd, mewn cydweithrediad ag asiantaethau eraill, pan fydd presenoldeb yn dechrau dirywio.

Darparwyd hyfforddiant pwrpasol ar bresenoldeb yn yr ysgol, oedd ar gael i bob llywodraethwr ysgol yng Nghasnewydd, yn ystod mis Tachwedd 2016.

Mae ysgolion wedi cael cymorth i fonitro'r bwlio sy'n digwydd mewn ysgol hefyd, ac i gynnwys hyn yn eu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol. Cynigir cymorth pellach i ysgolion i helpu i atal bwlio drwy gyfrwng y cynllun Ysgolion Iach yn ystod y flwyddyn i ddod.

Diolch i chi!!!

Diolch o galon i bawb a gwblhaodd Arolygon yr Haf a'r Hydref - rydym yn gwerthfawrogi'ch adborth yn fawr. Dyma'r cyfraddau ymateb ar gyfer y ddau arolwg: Arolwg yr Haf (40%, 258 o ymatebion); Arolwg yr Hydref (36%, 231 o ymatebion).

Cysylltu â ni

E-bost: one.newport@newport.gov.uk neu ffôn: (01633) 656 656
Gwefan: www.onenewportlsb.newport.gov.uk neu dilynwch ni ar Twitter @OneNewport.